

papur priordy

**Beth all roddi mwy o bleser
I blant bach fel ni,
Na chael gweled gwaith dy ddwylo,
A'th ddaioni di?**

**Pan ddihunaf yn y bore
Catrin Wyn Hughes**

**Dewiswyd gan Elin Wyn James
*Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn***

**Rhifyn 343
PAPUR EBRILL 2021**

Wedi gohirio?

WRTH holi un o'r gweithwyr mewn archfarchnad yn y dref am garden Gŵyl Dewi i'w hanfon at y merched ddiwedd Chwefror, cefais dipyn o syndod o glywed ei hateb: *'Dyn ni ddim yn gwneud Gŵyl Dew eleni oherwydd Covid, ond dyn ni'n gwneud Mydders Dei ac Easter Egg day.'* Es i ddim i gwestiynu ymhellach, dim ond cerdded i ffwrdd yn ddigyfeiriad gan dreial gwneud sens o'r hyn yr oeddwn newydd ei glywed!

Canslwyd Gŵyl Dewi gyda'r cwmni masnach yna, ac mae peryg meddwl bod Y Pasg wedi ei ganslo hefyd, os cyfeirir at Wyl bwysicaf yr Eglwys yn nhermau wyau Pasg yn unig!

GOHIRIO

Er bod Y Pasg yn wahanol eleni oherwydd cyfyngiadau Covid - oedfaon ar lein, dim helpa wyau, dim achlysuron teuluol, y prif siopau yn dal i fod ar gau, dim dillad newydd ar gyfer y gymanfa ganu, dim pererindod i gopa Bryn Myrddin. Ond ... NID YW'R PASG WEDI EI GANSLO!



Gŵyl i ddathlu atgyfodiad Iesu yw'r Pasg, ac ni ellir canslo'r gwirionedd oesol hwnnw.

Ond, gwaetha'r modd, mae'r gwirionedd rhyfeddol hwn wedi ei ohirio ers blynyddoedd ym mywydau nifer o bobl. Mae Gŵyl y Pasg wedi cael ei hamddifadu o'i gwir neges.

Mae'r allanolion, yn wyau a chywion bach, yn gwningod a phob math o drimins eraill yn gwneud y Pasg yn ddeniadol bob blwyddyn, ond mae calon yr Wyl wedi mynd ar goll.

Efallai bod y Pasg hwn, heb ei drimins arferol, yn gyfle i ddinoethi'r Wyl a darganfod o'r newydd ei gwir neges.



Crist a gyfododd, Efe a gyfododd yn wir! Halelwia!

Gweddiwn



Wrth i ni gofio Atgyfodiad dy Fab,
ein Harglwydd Iesu Grist,
Diolchwn am y cariad na ellir ei orchfygu,
a'r fflam na ellir ei diffodd.

Arglwydd Iesu,
Cyflwynwn ein hunain a'n heglwys i ti
gan ofyn iti roi gwanwyn newydd ar waith
yn ein profiad a'n bywyd.

Pan fyddwn yn amau – rho i ni hyder ffydd,
pan fyddwn yn drist, neu'n digalonni
– rho i ni lawenydd newydd, a gobaith newydd.

Pan fyddwn ni'n ofnus – helpa ni i ymddiried ynot,
a phan fyddwn yn teimlo'n wan – helpa ni i edrych atat ti
am ysbrydoliaeth a nerth.


Dad Nefol,
Cyflwynwn ein byd i ti,
yn enwedig y bobl sy'n dioddef
oherwydd rhyfel a thrais.

Rydym yn dyheu am weld byd
lle mae cariad yn drech na chasineb
a lle mae gobaith yn drech nag anobaith.

Gad i bob un ohonom wneud ein rhan
i greu byd sy'n debycach i'r nef,
a dangos i ni sut i roi dy gariad anorchfygol ar waith
gan ddechrau wrth ein traed.

Gofynnwn hyn yn enw dy Fab, Iesu Grist,
ein Harglwydd a'n Gwaredwr.

Amen



Gweddi o wefan Undeb yr Annibynwyr

Mis Ebrill	Darlleniad
Wythnos 1 Sul y Pasg	Luc 14: 13-49
Wythnos 2 Sul y Pasg Bach	Ioan 20: 19-31
Wythnos 3	Luc 24: 36b-48
Wythnos 4	Ioan 10: 11-18

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JOHN A MAIR MEREDITH

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

CWRDD GWEDDI



Nos Fercher – 5 Mai 2021 am 7

Croeso cynnes i bawb. Does dim rheidrwydd ar unrhyw un i gymryd rhan. Eich cwmni sy'n bwysig. Cyfle gwych i ymdawelu a myfyrio gyda'n gilydd. Cofiwch ymuno.

***Byddwch yn derbyn y ddolen ar gyfer y cyfarfod hwn
mewn da bryd***

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)



Dydd Sul 7 Mawrth 2021

Cymdeithas a Gweddi

Roedd pawb mewn hwyliau da a'r dyddiau o heulwen a gawsom wedi bod yn donig i ni i gyd! Ymddangosodd y Dr Myfanwy Jones yn ei dillad jiwdo (gyda gwregys du, sylwch!). Roedd hi newydd fod yn rhan o sesiwn jiwdo gydag eraill ar gyfandiroedd y byd i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod! Ac aros gyda chadw'n heini, clywsom fod beic ymarfer wedi cyrraedd cartref Yr Athro Emeritws Desmond a Nansi Hayes! Wel, ardderchog yn wir! Gweld yr haul ym machlud ar y gorwel dros Gaerfyrddin oedd y profiad a gafodd Beti-Wyn – golygfa a'i rhyfeddodd a'i hysgogi i ddarllen Salm 19 i ni – *'Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo'*. Mae Duw'n datguddio'i fawredd i ni drwy ysblander y greadigaeth Dyma'r Duw sy'n datgelu gobaith y gwanwyn i ni a'r bywyd newydd sydd i'w gael yn Efengyl Iesu.

Yr Oedfa Gymun Ddigidol

Roedd yr oedfa yng ngofal ein Gweinidog a'i myfyrdod yn seiliedig ar hanes Iesu yn Efengyl Ioan yn mynd drwy Samaria er mwyn dilyn y ffordd agosaf i Galilea. Roedd y llwybr hwn yn un mentrus iddo gan nad oedd pobl Samaria a'r Iddewon eisiau dim i'w wneud â'i gilydd. Eisteddodd wrth Ffynnon Jacob a gofyn i wraig a ddaeth yno i nôl dŵr am ddiod o'r ffynnon. Roedd hi wedi synnu gan mai Iddew oedd Iesu a'i bod hi'n dod o Samaria. Fel rheol, doedd yr Iddewon ddim hyd yn oed yn siarad â'r Samariaid! Roedd hi'n synnu hyd yn oed fwy pan ddywedodd Iesu y gallai ef roi "dŵr bywiol" iddi ac na fyddai syched arni byth wedyn pe bai hi'n ei gael. Iesu ei hunan yw'r 'dŵr bywiol'! Nid Iddew cyffredin mohono ond y Meseia a'r Gwaredwr roedd Duw wedi'i addo. Pe bai'r wraig yn credu yn Iesu yna byddai'n teimlo'n hollol fodlon. Yn yr ystyr hynny, ni fyddai syched arni eto. Gadawodd y wraig ei llestr dŵr wrth y ffynnon a brysio i'r dref i ddweud wrth bobl am Iesu. Daeth llawer o bobl i gwrdd â Iesu a dod i gredu ynddo'n go iawn. Yn bwysicach,



credodd llawer o bobl ynddo'n go iawn. Dyna beth y dylai pawb ohonom ei wneud - credu yn Iesu a dweud wrth bobl eraill amdano er mwyn iddynt gael y cyfle i'w adnabod a'i dderbyn i'w bywydau drostynt eu hunain. Yn dilyn y myfyrdod, ac wedi darllen y geiriau am sefydlu Swper yr Arglwydd yn 1 Corinthiaid Pennod 11, fe'n gwahoddwyd gan ein Gweinidog i gydgyuno cyn iddi gloi'r oedfa gyda'r Weddi Apostolaidd.

Dydd Sul 14 Mawrth 2021

Cymdeithas a Gweddi

Sul y Fam oedd testun tipyn o'r trafod a chlywsom am un wraig ffodus yn ein mysg a gafodd baned o de yn y gwely gan ei gŵr am y tro cyntaf eleni am 62 o flynyddoedd! On'd yw'r beiciau ymarfer yma'n tynnu'r gorau ohonom deudwch! Esboniodd ein Gweinidog mai Sul y Fam ac nid Sul neu Ddiwrnod y Mamau sy'n gywir ac ymhelaethodd ar ystyr Cristnogol yr achlysur. Byddai'n hen arferiad i bobl fynd yn ôl i ymweld â'r fam eglwys (sef yr eglwys roedden nhw'n mynd iddi gyda'u teuluoedd pan oedden nhw'n blant) ar Sul neilltuol bob blwyddyn, sef y pedwerydd Sul yn yr Adfent. Roedd yn ddiwrnod i deuluoedd ddod



ynghyd a threulio peth amser gyda'i gilydd. Hefyd, roedd yn gyfle i bobl yr eglwys gofio am Fair, mam Iesu. Erbyn hyn mae'r Sul hwn wedi mynd yn achlysur llawer mwy masnachol, gwaetha'r modd. Darllenodd ein Gweinidog ddarn yn y chweched bennod yn Efengyl Luc sy'n sôn am bwysigrwydd adeiladu ar sylfaen gadarn. Diolchwn ninnau am Eglwys Crist a'i rôl

fel mam yn rhoi magwraeth a sylfaen gadarn i ni yn y Ffydd Gristnogol ar ddechrau taith bywyd.

Yr Oedfa Ddigidol ar Sul y Fam

Gweler adroddiad am y gwasanaeth hwn ar dudalennau 9 -10.

Dydd Sul 21 Mawrth 2021

Cymdeithas a Gweddi

Braf oedd croesawu cyfeillion o Gapel Mynydd Seion, Casnewydd, atom i'r cyfarfod hwn. Mae'r cyswllt rhwng Elin Maher, un o arweinyddion Mynydd Seion, a Beti-Wyn yn un hir a chynnes. Roedd tad Elin, sef y diweddar Gareth Thomas, yn weinidog yn Hebron, Clydach, yr eglwys ble codwyd Beti-Wyn i'r weinidogaeth. Bu sgwrsio difyr a da oedd rhannu gwybodaeth am weithgareddau'n heglwysi a dwyn i gof hefyd ambell gyswllt rhwng yr aelodau â'i gilydd. Diolchwyd



i Greta a Miriam am wisgo parau od o sanau i gefnogi

Diwrnod Syndrom Down y Byd ar y Sul hwn ac i godi ymwybyddiaeth drwy hynny o'r clefyd. Cawsom ein hatgoffa gan Beti-Wyn ein bod newydd ddathlu Diwrnod Cwsg y Byd ar 19 Mawrth ac am y cyfeiriadau at gwsg sydd yn y Beibl ac fel y mae

angen gorffwys ar bob un ohonom i wahanol raddau. Darllenodd Siân (Capel Mynydd Seion) ddarn o'r Colosiaid (Pennod 3) ble dysgwn mai Duw yw ffynhonnell y tangnefedd mewnol hwnnw a geisiwn yng nghanol prysurdeb ein hoes. Dyfynnodd ein Gweinidog hefyd yr adnod olaf yn Salm 4 ble dywed y salmydd: *Bydda i'n gallu gorwedd i lawr a chysgu'n dawel, am dy fod ti, O Arglwydd, yn fy nghadw i'n saff.'*



Yr Oedfa Ddigidol

Mae'n anodd credu bod blwyddyn yn union wedi mynd heibio ers i'r Ofalaeth ddechrau paratoi'r oedfaon digidol hyn. Roedd yr oedfa hon yng ngofal ein Gweinidog gyda chymorth cyfeillion Eglwys **Mynydd Seion, Casnewydd**, sef Elin Maher (Gweddi) a'i merch Efa (Darlleniad – Ioan 12: 21-26). Mae'n siŵr fod amryw ohonoch chithau, fel ein Gweinidog, wedi awchu mynd at bersonau adnabyddus, er enghraifft ar faes yr Eisteddod, er mwyn ceisio cael eu llofnod. Efallai'ch bod wedi defnyddio Llyfr Llofnodion yr Urdd wrth wneud hynny. Erbyn heddiw, wrth gwrs, mae ceisio hunlun yn fwy ffasiynol. Wel, fel y dywedodd ein Gweinidog yn ei myfyrdod mai awchu gweld Iesu roedd y Groegiaid ym mharthau Galilea. Dyma nhw'n gofyn i Philip: *Syr, dŷn ni eisiau gweld Iesu*. Ac onid ein dyhead a'n hangen ni heddiw yw gweld Iesu o'r newydd, bod yn ei gwmni, dysgu mwy amdano a'i adnabod fel gwaredwr a ffrind? Iesu yw'r unig un sy'n gallu dileu'r gwacter ystyr yn ein bywyd a chynnig i ni yn lle hynny dawelwch a heddwch meddwl a chyfeiriad a nod wrth i ni deithio'r byd hwn.


Boed i ninnau, fel y Groegiaid gynt, geisio Iesu drwy lygaid ffydd, fel y gallwn fwynhau bywyd yn ei gyflawnder dan ei ofal tyner.



Dydd Sul 28 Mawrth 2021

Cymdeithas a Gweddi

Roedd pawb wedi cofio troi'r clociau ymlaen – ac ambell un ohonom yn ddiolchgar am nodyn atgoffa'n Gweinidog i'r Ofalaeth. Roedd hi'n fore cymylog a gwlyb ond bod arwyddion y gwanwyn o'n cwmpas ac un o aelodau'r Ofalaeth wedi gweld morlo yn Afon Taf – darlun hyfryd iawn! Fe'n hatgoffwyd ei bod yn Sul y Palmwydd neu Sul y Dioddefaint ond canolbwyntiodd ein Gweinidog y tro hwn ar enw arall sydd iddo, sef Sul y Blodau. Ar y Sul hwn y bydd teuluoedd yn ymweld â mynwentydd i lanhau beddau eu hanwyliaid a gosod blodau arnynt. Mae'n draddodiad sy'n perthyn i Gymru – ond i dde'r wlad yn fwy nag i'r gogledd. Trawiadol yw blodau mewn mynwent – y blodau lliwgar yn arwydd o oleuni a bywyd a rhywbeth cadarnhaol. Mae tywyllwch y bedd a goleuni blodeuog yr ardd yn wrthgyferbyniad nodedig. A bedd mewn gardd oedd gorffwysfan Iesu. Darllenodd ein Gweinidog Salm 24 sy'n datgan mai Duw yw'r brenin mawr – yr Arglwydd sydd piau'r ddaear a phopeth sydd ynddi cyn cynnig Gair o Weddi.



Yr Oedfa Ddigidol

Agorodd ein Gweinidog yr oedfa gyda Gweddi'r Groes Balmwydd i goffáu taith fuddugoliaethus ond gostyngedig ein Gwaredwr Iesu fel Brenin ar ebol asyn i mewn i Jeriwslaem – taith a arweiniodd at Fryn Calfaria. Daeth y darlleniad o Efengyl Mathew 21: 1-11. Roedd hi'n ddechrau'r Wythnos Fawr yn arwain at y Pasg – wythnos olaf bywyd a gweinidogaeth Iesu ar y ddaear hon, Symbolau sy'n nodweddu'r wythnos hon yw brigau'r palmwydd, yn cynrychioli gweiddi mawr a bloeddio'r dorf wrth iddynt groesawu Iesu i blith ei bobl ei hun a'r Groes yn cynrychioli diwedd bywyd. Y Groes yn hytrach na'r palmwydd yw'r symbol sy'n gweddu orau l'r Eglwys Gristnogol gan fod ystyr dyfnach iddi. Mae'n Groes yn arwydd o achubiaeth a gwaredigaeth. Concro erchyllterau'r Groes wnaeth Iesu ac nid rhywbeth llipa fel deilen balmwydd. Gwrandewn ar yr Hosanna ar y Sul hwn ac ymlwybro'n weddigar a myfyrgar drwy'r wythnos hon yng nghwmni Iesu ond gyda'r Groes o'n blaen
+ - *Daeth Gwaredwr gwiw i ddyinion, O newydd da.*



Oedfa Sul y Mamau 2021

Ar fore Sul 14 Mawrth cynhaliwyd oedfa ddigidol i ddathlu Sul y Mamau, dan arweiniad Beti-Wyn, gyda chymorth dros ugain o famau Pobl Ifanc y Priordy, a mamau plant Ysgolion Sul Cana a Bancyfelin. Mae hyn ynddo'i hyn yn arwydd o gyfoeth yr ofalaeth ac yn rhoi gobaith am y dyfodol.



Crëwyd naws hyfryd ar ddechrau'r gwasanaeth wrth i ni glywed trefniant offerynnol o'r hwiangerdd Suo Gân, y mae ei geiriau'n sôn am gariad mam, a byddai'r alaw a'r thema hon yn parhau fel llinyn cysylltiol drwy gydol y gwasanaeth.

Yn ei geiriau agoriadol, nododd Beti-Wyn ei bod yn arwyddocaol ein bod yn dathlu'r achlysur hwn ar ddydd Sul, yn hytrach nag unrhyw ddiwrnod arall o'r wythnos, a'i fod yn gyfle nid yn unig i ni ddangos ein gwerthfawrogiad i'n mam ond i ddiolch hefyd am yr eglwys Gristnogol a fu'n gyfrifol, fel mam, am ein magu a'n meithrin yn y ffydd Gristnogol.



Mewn darlleniad o waith W Rhys Nicholas, "Salm i'r Fam" clywsom am nifer o nodweddion mam dda, gan gynnwys amynedd, sefydlogrwydd, tiriondeb, dioddefgarwch, synnwyr a deall da. I ddilyn canwyd emyn poblogaidd Elfed, "Arglwydd Iesu, dysg i'm gerdded".

Ar ôl gair o weddi yn sôn am gariad a gofal Duw tuag atom ac yn gofyn am gariad, doethineb, dealltwriaeth ac amynedd wrth i ni gefnogi ein plant trwy'r byd, cafwyd cyflwyniad gan naw o'r mamau. Canolbwyntiai'r cyflwyniad ar y lliwiau melyn, oren, llwyd, gwyrdd, porffor, glas, brown, gwyn, a choch, gyda phob lliw yn cynrychioli agwedd wahanol ar fywyd, ac yn arwydd, yn eu tro, o hapusrwydd, cynhesrwydd, annibyniaeth, sefydlogrwydd, bywyd ysbrydol, nerth, cyfeillgarwch, purdeb a chariad. Er mai dymuniad pob mam yw sicrhau bod ei phlant yn cael mwynhau'r rhinweddau hyn yn

eu bywydau, cydnabuwyd nad yw hynny'n bosibl ym mhob achos. Cofiwyd am y mamau sy'n ceisio magu eu plant mewn amodau trist ac mewn mannau oer, mamau sydd wedi gorfod gollwng eu gafael ar eu plant cyn cael y cyfle i'w magu'n iawn, ac sy'n poeni am iechyd eu plant. Gweddïwyd am y mamau sy'n gwneud eu gorau i roi sefydlogrwydd i'w plant mewn amodau anodd y tu hwnt i'w rheolaeth, sy'n ymdrechu i fagu plant ar eu pennau eu hunain heb gefnogaeth, ac sy'n brwydro i gadw bywydau eu plant yn bur a glân. I gloi'r cyflwyniad diolchwyd am gariad Duw tuag atom a chariad mamau ar hyd y cenedlaethau.

Yn dilyn yr emyn "Y mae i'n Waredwr", sy'n diolch i Dduw am anfon Crist i'n byd, cafwyd darlleniad o lyfr Eseia, Pennod 66, sy'n cynnwys yr adnod am Dduw yn cysuro'i bobl mewn caethiwed - "Fel y cysurir plentyn gan ei fam, byddaf i'n eich cysuro chi". Aeth Beti-Wyn ati i ymhelaethu ar hyn yn ei hanerchiad. Er bod Duw'n datguddio'i hun i ni fel Tad, a ninnau'n ei gyfarch Ef fel ein Tad, eto mae'n defnyddio'r ddelwedd o fam i ddisgrifio rhai agweddau o'i gymeriad, fel yn yr adnod hon. Wrth weld nodweddion cariad a chysur mam fe welwn ni hefyd rywbeth am gymeriad Duw y Tad. At mam, yn aml iawn, y bydd plentyn yn troi am gysur ac i sychu dagrau, er nad yw hynny'n wir am bawb. A cheir cyfeiriad arall at Dduw yn cysuro'i bobl yn llyfr y Datguddiad lle clywir amdano'n sychu pob deigryn o lygaid ei bobl. Dengys hyn fod ein Duw ni yn Dduw sy'n agos atom, sy'n barod i'n cysuro fel mae mam yn cysuro'i phlant.

Yn y weddi cyn cloi'r gwasanaeth diolchwyd i Dduw am ei ofal mamol trosom ac am ei gariad atom, sydd yn fwy na chariad mam hyd yn oed, cariad uwchlaw pob cariad. Diolchwyd am ein cartrefi a'n teuluoedd, am gael mam i'n caru a'n harwain ac am rieni i'n meithrin mewn ffydd. Diolchwyd am y perthnasau, y ffrindiau a'r athrawon sydd wedi bod fel mam i ni, sydd wedi gofalu amdanom a gosod esiampyl i ni. Cofiwyd am holl blant y byd nad ydynt yn gwybod beth yw cariad mam a gofynnwyd i Dduw fod yn drugarog wrth ei blant ble bynnag y bônt, yn enwedig y rhai sy'n dioddef. Diolchwyd i Dduw am yr eglwys, sydd fel mam i ni, lle cawn ofal a chefnogaeth ar adegau anodd, a'n paratoi i fynd allan i garu a gwasanaethu eraill. I gloi'r weddi adroddwyd gweddi'r Arglwydd. Yn dilyn y fendith gan Beti-Wyn, canwyd emyn mawr W Rhys Nicholas, Pantyfedwen, "Tydi a wnaeth y wyrth o Grist fab Duw", clo teilwng i oedfa fendithiol iawn.

Diolch i'r mamau canlynol am gymryd rhan yng ngwasanaeth
Sul y Mamau

Y Priordy

*Elinor Wyn, Meinir, Meleri, Carys, Eleri, Alwen, Nicki, Jayne, Catrin
Mair, Elen, Catrin Haf, Sian, Mwynwen, Delyth, Fiona a Myfanwy.*

Cana:

Bethan a Rhiannydd

Bancyfelin

Carwen, Katie a Laura

PANED A SGWRS

Bore Mercher, 12 Mai 2021 am 11 o'r gloch

PANED CYN NOSWYLIO

Beth am ynuno â ni am sgwrs fer a phaned cyn noswylio?

Nos Fercher 26 Mai 2021 am 8 yr hwyr



***Byddwch yn derbyn y dolenni ar
gyfer y cyfarfodydd hyn mewn
da bryd***





CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 16 Mehefin 2021 am 7

Yn y Festri neu ar Zoom

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod
i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda***

Dydd Gweddi'r Byd




DYDD GWEDDI'R BYD

5 Mawrth 2021



Profiad newydd oedd cynnal gwasanaeth blynyddol Dydd Gweddi'r Byd yma yng Nghaerfyrddin dros Zoom eleni oherwydd y cyfyngiadau presennol. Ond, o feddwl, pa well cyfrwng i glymu pobl y byd ynghyd na'r teclyn technolegol gwyrthiol hwn sydd wedi dod i'r adwy sawl tro i'n cynnal yn ddiweddar? Mae posibiliadau cydgysylltu'n fyd eang ar ddiwrnod fel hwn yn gynhyrfus o enfawr!

Croesawyd ni'n gynnes iawn i'r gwasanaeth gan y Parchedig Delyth Richards, Eglwys Crist. Da oedd gweld tua 50 wedi ymuno â'r gwasanaeth gydag ambell wryw ymhlith y merched gan fod cyfarfodydd y Dydd Gweddi, a gynhelir ar Wener cyntaf mis Mawrth, yn agored i bawb erbyn hyn. Rhoddwyd heibio'r teitl Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd ers ambell flwyddyn nawr!



Chwiorydd Cristnogol Vanuata oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth eleni. Ar ochr arall y byd yn Ne'r Môr Tawel, 2000 o filltiroedd i'r dwyrain o Awstralia, mae'r ynysoedd gwasgarog o'r enw Vanuatu. Y thema oedd *Adeiladu ar Sylfaen Gadarn* - thema briodol iawn i ynysoedd sydd ym mharth seiclonau trofannol De'r Môr Tawel ac wedi derbyn eu dogn o golledion o ganlyniad i ddistryw

seiclonau dros y blynyddoedd.

Roedd y gwasanaeth yn gyfle i ni rannu'n gweddïau gyda thrigolion Vanuatu a gweddïo hefyd dros eu hanghenion hwy a'u hynysodd. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o gapeli ac eglwysi'r dref. Yn cynrychioli'r Priordy roedd Beti-Wyn, Eurwen Jones, Eirlys Jones, Nansi Hayes ac Ann Thomas.



Pe baem yn cwrdd wyneb-yn-wyneb byddem i gyd wedi cael ein hannog i ddewis cerrig, gafael ynddynt ac edrych arnynt a'u cyfnewid ymysg ein gilydd. Roedd rhaid gwneud hyn oll yn



ddyachmygus y tro hwn oherwydd yr amgylchiadau ond yr un oedd y neges a'r bwrddwn. Mae pob un o'r cerrig – fel ninnau – yn arbennig o ran siâp, lliw a diffygion. Mae Duw'n defnyddio pob un ohonom fel carreg i adeiladu sylfaen gadarn o gariad.

Ac erfyn arnom mae merched

Vanuatu i adeiladu'n bywydau ar sylfaen gadarn – ar eiriau Iesu, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd.

Diolchodd y Parchedig Delyth Richards i'r Parchedig Beti-Wyn am ei help gyda'r trefniadau, i Helen Gibbon am ofalu am ochr gerddorol yr oedfa, i bawb a gymerodd ran ac i Joan Thomas sy'n barod i dderbyn unrhyw roddion i helpu trigolion Vanuatu yn Swyddfa Cymorth Cristnogol. Dymuniad Delyth Richards wrth gloi, fel pawb arall ohonom, oedd gweld y cyfle i ni ddod at ein gilydd unwaith eto i ddathlu'r Dydd Gweddi yn 2022



Western Mail - Journal
Sut Newyddion?



Y TYST
Sut Newyddion?



50c y rhifyn!

Cyswllt: Sulwyn Thomas

JOHN MEREDITH YN EIN HERIO!

Hanner can mlynedd yn ôl, ar 15 Chwefror 1971, gwelwyd newid mawr yn y byd ariannol. Newidiodd arian breiniol y Deyrnas Unedig i ddull o ddefnyddio unedau o ddeg. Clywsom am ymateb John Meredith i hyn yn rhifyn Mawrth. A'r tro hwn mae'n eich herio gyda rhagor o gwestiynau!



1	Beth oedd gwerth swllt mewn arian degol?	
2	Pa ddarnau arian gafodd eu tynnu o gylchrediad yn Awst 1971?	
3	Parhaodd un siopwr i brynu nwyddau mewn £sd am nifer o flynyddoedd wedi i'r arian degol ddod i rym. Beth oedd ei fusnes? Ble roedd ei siop?	
4	Beth ddigwyddodd i sieciau ar ôl i arian degol ddod i rym?	
5	Beth oedd y dyddiad ar yr hen ddarnau arian normal diwethaf a gafodd eu bathu?	
6	Cyhoeddodd y Post Brenhinol dri stamp degol cyn i arian degol ddod i rym ym 1970. Beth oedden nhw?	
7	Dechreuodd y 1980au gyda dirwasgiad economaidd ond gorffennodd gyda ffyniant. Ym 1980 roedd yn costio 12c i anfon llythyr dosbarth cyntaf. Faint oedd e'n gostio ym 1989?	
8	Banc ym mha wlad gyhoeddodd ym 1971 nad oedd y darnau 1/2c 1g a 2g newydd yn arian cyfreithlon?	

Diolch i John. Gweler Tudalen 47 am yr atebion!

**Y Parch T Elfyn Jones
(Elfyn Llysderi)**



YCHYDIG flynyddoedd yn ôl aeth grŵp ohonon ni ati i sefydlu'r Wefan 'Stori Fawr Dre-fach Felindre' ac i gofnodi hanes ardal fy magwraeth yn ystod yn ganrif ddiwethaf. Yn y llyfr *Hanes Plwyfi Llangeler a Phenboyr* mae hanes yr ardal wedi ei groniclo tan 1899 a'n



tasg ninnau oedd cynnwys lluniau a gwybodaeth ar hyd yr ugeinfed ganrif hyd at ein dyddiau ni.

Fe ges i bleser personol yn ymchwilio i hanes Neuadd y Ddraig Goch, y neuadd leol, yn ogystal â chreu Adran Enwogion a Phobl Leol. Ar hyn o bryd rwyf wrthi'n casglu gwybodaeth ac yn ysgrifennu am Feirdd ac Awduron yr ardal. Yn eu plith mae'r diweddar Barchedigion J Towyn Jones, W.T. Thomas, a fu'n weinidog ar


Gapel Soar Penboyr a **T. Elfyn Jones (Elfyn Llysderi)** sef tad Menna Elfyn a thad-cu Fflur Dafydd a hen dad-cu Beca a Luned sy'n blant yr Ysgol Sul yn Y Priordy.

Cofiaf yn dda am Jams ac Esther Jones, tad a mam y Parch T Elfyn Jones. Fferm fechan yn godro ychydig o wartheg oedd Llysderi ar y ffordd i bentref Cwmpengraig o Dre-fach Felindre, a gan i minnau gael fy magu yn ymyl fe fyddwn wrth fy modd yn chwarae gyda phlant eraill ar glos Llysderi bob amser.

Yn Llysderi y ganwyd a magwyd y Parch T Elfyn Jones, a byddai yntau a'r teulu yn ymweld â'i rieni yn gyson pan oedd yn weinidog yn Trinity Llanboidy a Rhydyceisiaid, Libanus Y Pwll, Llanelli, a'r Tabernacl Pontardawe. Fe gofiwn iddo fod yn weinidog wedyn ym Mheniel a Bwlchycorn tan ei ymddeoliad yn 1979 a mynd i fyw i Dre-fach, Llanelli.

Bu'n cyfansoddi emynau, cerddi a homiliau ar hyd ei oes. Cyfrannodd homili i *Bapur y Cwm* – papur bro Cwm Gwendraeth, yn ddi-dor am

ugain mlynedd. Cyhoeddodd lyfryn yn llawn penillion difyr yn 1941 o



dan y pennawd *Y Bibell Glai*. Yna, yn 2005 fe drefnodd ei ferch, y bardd a'r awdures Menna Elfyn, ar ran ei chwaer Siân Elfyn Jones a'i brawd Geraint Elfyn Jones, gyfrol o waith eu tad – **Seinio Clod**. Yn y gyfrol arbennig hon fe welwn y Parch T Elfyn Jones ar ei orau fel emynydd ac awdur cerddi crefyddol. Fe geir 65 o emynau a phob un mor bwrpasol i'w canu mewn amrywiol wasanaethau i oedolion a phlant, ynghyd â 15 carol hyfryd.

Prawf o bwysigrwydd y Parch T Elfyn Jones fel emynydd yw'r ffaith fod 7 o'i emynau wedi eu cynnwys yn ein llyfr emynau *Caneuon Ffydd* sef rhifau 78, 156, 242, 653, 786, 831 ac 861 ac fe fyddwn ni yn Y Priordy yn aml yn canu rhai o'r emynau hyn yn ein gwasanaethau.

Ymhlith rhai o'r cadeiriau eisteddfodol a enillodd oedd yn Eisteddfod Fawr Aberteifi yn 1969 ac yn 1971, a bu'n fuddugol droeon yn Adran Llenyddiaeth yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyna pam y cyfeiriwyd ato yn aml, ac yn bwrpasol iawn, fel 'Y Bardd Bregethwr T Elfyn Jones.'

Yn y llyfr *Canrif o Luniau*, sef casgliad o luniau'r ugeinfed ganrif plwyfi Llangeler a Phenboyr, gwelir llun o'r Parch T Elfyn Jones gyda phump o weinidogion eraill a godwyd yng Nghapel Soar Penboyr, gan gynnwys Y Parch Edward Griffiths, Llandeilo a'r diweddar Barch J Towyn Jones, Heol Awst, Caerfyrddin.

Heb os, fe allwn ystyried 'Elfyn Llysderi' fel un o'r beirdd amlycaf a godwyd yn ardal Dre-fach Felindre ac yn sicr fel emynydd blaenllaw.

GA i eich annog i lawrlwytho '*Stori Fawr Dre-fach Felindre*' ar eich cyfrifiadur neu I Pad trwy fynd i [Google.com](https://www.google.com) ac yna teipiwch **Stori Fawr Dre-fach Felindre** a chlicio wedyn ac fe gewch ddewis o wahanol adrannau am hanes yr ardal. Ewch i Adran Beirdd ac Awduron neu Enwogion a Phobl Leol ac fe gewch wledd o wybodaeth a lluniau unigolion arbennig iawn ardal fy magwraeth, a'r blaenaf yn eu plith heb os yw'r Parch T Elfyn Jones – 'Elfyn Llysderi'.



Beth yw'ch barn?

Yn y troednodyn ar ddiwedd ei myfyrdod yn rhifyn Mawrth cododd Beti-Wyn bwynt diddorol...

O.N.

Un cwestiwn bach arall - dim ond er mwyn corddi'r dyfroedd!

Rygbi. Mae gan dimau rygbi'r tair gwlad arall sy'n rhan o Ynysoedd Prydain eu blodyn cenedlaethol ar eu crysau rygbi - Iwerddon: *Meillionen*; Yr Alban: *Ysgallen*, a Lloegr: *Rhosyn*. Pam felly nad yw'r genhinen Bedr (sy'n llawer pertach na meillionen, ysgallen a rhosyn) ar grys rygbi tîm cenedlaethol Cymru? Neu hyd yn oed genhinen? Trafodwch!



A dyma ofyn i ambell un o selogion y bêl gron yn y Priordy am eu barn hwy am y mater:

Tim Hayes

Er nad ydw i'n gefnogwr brwd o'r teulu Brenhinol na'r Tywysog Charles yn benodol, na chwaith yn gweld yr angen am arwyddair Almaeneg ar emblem Undeb Rygbi Cymru, mae gweld tair pluen ar ganfas coch wedi fy ysbrydoli erioed. Ac yn wir, fe fyddwn i'n gweld o chwith petai'n diflannu. Mae'r ffaith bod Cliff, Gareth, Barry, Grav, Delme, Jonathan, Shane a Ken oll wedi gwireddu eu breuddwydion o chwarae dros eu gwlad tra'n gwisgo'r emblem hwn, yn creu ymdeimlad sentimental o gysylltiad drwy'r oesoedd. Yn fy marn i, byddai dechrau eto, gydag emblem newydd, yn torri'r llinyn euraidd hwnnw sydd yn cysylltu perchennog dros dro y "Crys" gyda'r crwtyn neu'r groten ifanc hynny sydd yn breuddwydio am ei etifeddu. Roedd pasio'r arholiad dyfarnu (flynyddoedd maith yn ol!), yn rhoi'r hawl i mi wisgo'r crys a'r tair pluen yn golygu llawer i fi. Er na chefais gyfle i chware dros fy ngwlad, roedd cael rhedeg ar y maes, a'r tair pluen dros fy nghalon, wrth gario chwiban, nid pêl, yn caniatáu i fi freuddwydio hefyd!

Huw Michael

Ie, cwestiwn da: pam **nad** yw y genhinen Bedr ar grysau timau cenedlaethol – beth bynnag fo'r gêm? Yr unig dîm Cymreig y galla i feddwl amdano sy'n arddel cenhinen Bedr yw **tîm criced Morgannwg**. Y ddraig goch sy ar



grysau tîm pêl-droed Cymru. Y ddraig goch sy ar grys tîm rygbi Cymru Llundain. Byddai dyn yn meddwl taw'r ddraig goch ddylai fod ar grysau'r tîm rygbi hefyd, ond mae'n debyg fod Undeb Rygbi Cymru wedi mabwysiadu'r tair pluen pan y'i ffurfiwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac iddynt ddisodli "Ich Dien" ar y bathodyn gan y llythrennau WRU yn y 1990 au. Rwy'n teimlo na fyddai ymgyrch i ddisodli'r tair pluen gyda chenhinen Bedr yn debyg o ennyn llawer o gefnogaeth. Er gwell neu er gwaeth mae'r tair pluen yn rhan o ddelwedd a hanes y tîm cenedlaethol ers dros ganrif ac am y rheswm hynny ni fyddwn yn dymuno ei newid. Yn wir, yng ngolwg y rhan fwyaf, bathodyn tîm rygbi Cymru yw'r tair pluen yn hytrach nag unrhyw beth i'w wneud â Thywysog Cymru. Wedi dweud hynny, mae cenhinen Bedr i'w gweld yn amlwg ymhlith rhai o gefnogwyr Cymru ar ddiwrnod gêm yng Nghaerdydd, yn enwedig fel penwisg. Ond peidiwch â disgwyl i fi wisgo un! Falle y byddai gweld cenhinen Bedr yn disodli'r tair pluen ar fathodyn y Llewod yn fwy derbyniol?

Gareth Gravel

Mae cryn dipyn o drafod wedi bod yn ddiweddar gan rai gwleidyddion am y pwysigrwydd o arddangos arwyddlun neu faner er mwyn hyrwyddo balchder mewn gwlad neu sefydliad. Jac yr Undeb sy'n cael y sylw er mwyn ceisio tynnu'r deyrnas at ei gilydd ac i fod yn fwy "Prydeinig". Roedd erthygl ein gweinidog yn rhifyn mis Mawrth yn amserol iawn felly – a ddylid dangos arwydd y genhinen neu'r genhinen Bedr ar grysau rygbi'r tîm cenedlaethol? Ers cyn co' y tair pluen yw arwyddlun tîm Cymru. Tair pluen Tywysog Cymru sef Edward y Tywysog Du, mab hynaf Edward III a oedd yn Llywodraethwr dros Gymru a chanddo'r nesa at ddim cysylltiad â Chymru. Ac i fod yn



deg dyma'r arwyddlun sydd wedi dod yn adnabyddus dros y byd fel arwydd o'n tîm cenedlaethol. Fodd bynnag, ystyriwch Glwb Criced Morgannwg sydd wedi mabwysiadu'r genhinen Bedr fel arwyddlun er 1933. A wyddoch chi hefyd fod y genhinen Bedr yn ymddangos yn amlwg ar grysau rygbi tîm rygbi'r Tymbl? Ac yna mae'r **Ddraig Goch** i'w gweld ar grysau tîm Cenedlaethol Pêl-droed Cymru. Pam felly fod y crysau rygbi'n dal i dalu



teyrnged i frenhiniaeth Lloegr trwy ddal i wisgo'r tair pluen? Oes yna ryw ofn colli arian neu gefnogwyr wrth newid arwyddlun i un Cymreig? Wel, gyda'r sefyllfa wleidyddol bresennol yn newid yng Nghymru a Yes Cymru'n codi ei ben, tybed a yw hi'n amser i ystyried yn ddwys pwy ydyn ni? Felly, er mwyn gweld newid i'r dyfodol... Gwisg genhinen ar dy grys a gwisg un yn dy galon!

CAERFYRDDIN

*Y dydd yn dechrau ymestyn a haul y bore'n disgleirio trwy
fwâu pont*



Llun: TDJ

**Beth all roddi mwy o bleser
I blant bach fel ni,
Na chael gweled gwaith dy ddwylo,
A'th ddaioni di?**

Y pennill hwn yw'r ail bennill o'r emyn hyfryd '*Pan ddihunaf yn y bore, gwelaf berllan lawn*' ar yr emyn-dôn 'Gwili' – y geiriau a'r dôn o waith Catrin Wyn Hughes, athrawes gerdd yn Ysgol y Strade ac enw amlwg ym myd canu corawl yng Nghymru. Roedd Catrin yn byw yng Nghwmgwili pan aeth ati i gyfansoddi'r emyn. Y tu allan i'w hystafell wely, roedd perllan yn llawn o afalau a daeth y syniad am y geiriau o'r fan honno.



Pob tro y byddaf yn clywed yr emyn hwn, byddaf yn cofio am Sara fy chwaer a finnau'n ei ganu fel deuawd yn Eisteddfod Felindre, Abertawe. Roeddem wrth ein bodd yn ymweld â'r Eisteddfod hon bob blwyddyn, gan ei fod yn yr ardal lle cafodd mam ei magu. Yn ogystal â chystadlu, roedd yn brofiad bod yng nghanol y cymeriadau lleol am y noson!

Mae'r pennill yn sôn bod modd hyd yn oed i blant bach werthfawrogi gwaith a doniau Duw. Mae'r gwnawyn wedi cyrraedd a blodau yn harddu'r wlad – cenin Pedr, y lili wen fach a'r briallu. Mae gweld ôl gwaith Duw yn lliwiau'r gwanwyn yn codi ein calon wedi gaeaf sydd wedi bod yn fwy tywyll nag arfer.

Cofiwn taw mewn gardd y claddwyd Iesu, yng nghanol lliw a phersawr y blodau. Ac yn yr ardd honno y daeth Mair Magdalen wyneb yn wyneb â'r Iesu byw.

YR EMYN CYFLAWN

PAN DDIHUNAF YN Y BORE

Pan ddihunaf yn y bore
Gwelaf berllan lawn:
Ffrwythau aeddfed a dyf ynddi,
Moli Duw a wnawn.

Beth all roddi mwy o bleser
I Blant bach fel ni,
Na chael gweled gwaith dy ddwylo,
A'th ddaioni di?

Diolch i ti am rieni
Sy'n ein helpu ni:
Atynt hwy y trown am gymorth
Pan ddaw cwmwl du.

Felly, Arglwydd, diolch i ti
Am bob rhodd a gawn
Dyro fendith ar ein llwybr
Fore a phrynhawn.

Catrin Wyn Hughes

*(Athrawes Gerdd yn
Ysgol y Strade,, Llanelli)*



LLONGYFARCHIADAU I BOBL IFAINC Y PRIORDY A
GAFODD GLOD MAWR YN NOSON WOBRWYO YSGOL
GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN

 Ar gyfer y perfformiad gorau yn TGAU Cerddoriaeth
mae **Tlws yr Adran Gerdd**
a'r enillwyr eleni yw -

Noson
Wobrwyo
2021

Gareth Jones a Gwenllian Howells

 Mae'n bleser gyda ni eleni hefyd
i gyflwyno gwobr newydd -
Gwobr Gymreictod Grav
a'r enillydd yw -

 **Gwenllian
Jones**

Noson
Wobrwyo
2021

Ifanc@Priordy

Ysgol Sul



Rydym yn dal i gwrdd dros Zoom! Dim sôn am ddychwelyd i'r Capel ar hyn o bryd. Ond gwylwch y gofod!



DIOLCH!

Diolch i bawb sydd wedi bod yn dod i'r Ysgol Sul. Rydym wedi cael lot o hwyl dros zoom. Mae detholiad o luniau o'r Ysgol Sul mewn man arall

yn y papur hwn.



Mae angen lliw ar yr wyau hyn!
Fedrwch chi helpu?
Pasg Hapus i bawb!

Copi o gomic Y Pasg, *Seren Jerwsalem* ar y ffordd at bob teulu!



Stori'r Pasg
ar ffurf
comic...

Lluniau i'w
lliwio...

Posau...

Gemau...

Tan y tro nesaf,
Cadwch yn ddiogel
ac yn iach.

Hwyl, Beti-Wyn

Diolch
i bob
teulu a
ymunodd
yn

CWIS
MAWR

**ENILLYDD GWOBR CAPEL Y PRIORDY AM YMDRECH
ARBENNIG MEWN ADDYSG GREFYDDOL YN NOSON
WOBRWYO YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN**





Gwobr Capel y Priordy

*Cyflwynir y wobwr ariannol hon i ddisgybl o
flwyddyn 11/13 am ymdrech arbennig
mewn Addysg Grefyddol.*

*Rhoddir y wobwr newydd hon gan Capel y Priordy
a'r enillydd eleni yw -*

*Amy
Flattery*

*Noson
Wobrwyo
2021*





NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

GŴYL DDEWI

Dewch i Ddathlu Gwyl Dewi ar zoom!
Nos Lun 8 Mawrth 7yh

- Rhai eitemau
- Cwis am Gymru
- Hoff luniau o Gymru

plis anfonwch nhw mewn o flaen llaw

- Gorffen limerig:
Bob tro y rhown frecwast i'r plant
Fe gofiwn am gyngor 'rhen Sant,
Gan ddweud wrth ein hunain
Wrth wneud pethau bychain.....
- Creu brawddeg o'r enw Dewi Sant:
Pob gair i ddechrau efo'r llythrennau yn eu tro
- Creu llun/darn o gelf ar y thema Cymru

Plis anfonwch eich ymgais i fewn erbyn Nos
Sadwrn i jron.tabsalem@gmail.com



Manylion cysylltu
zoom yr un peth ag
oedfa'r Sul!

Gan nad oedd yn bosib cynnal
Swper Gŵyl Ddewi fel arfer
oherwydd rhesymau amlwg
trefnwyd noson ar zoom.

Y Prifardd Ifor ap Glyn oedd
beirniad y Limerig a'r
Frawddeg a dyma'r cynigion
buddugol:

Limerig

Bob tro y rhown frecwast i'r plant,
Fe gofiwn am gyngor 'rhen Sant
Gan ddweud wrth ein hunain,
Wrth wneud pethau bychain –
Mae'n rhy gynnar i ganu cerdd-dant

Y frawddeg

yn seiliedig ar lythrennau **DEWI SANT** oedd:

Daw eto wanwyn i'n sirioli â'i naws tyner

Y GRAWYS

Rhannwyd salmau i'w darllen bob dydd
wrth deithio at y Pasg



PLEIDLEISIO AM Y TRO CYNTAF!

Cynhelir etholiadau'r Senedd ac etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar 6 Mai 2021 ac am y tro cyntaf bydd pobl ifanc 16+ yn cael yr hawl i bleidleisio. Dyma ofyn i rai o bobl bobl ifanc y Priordy sy'n gymwys i bleidleisio am y tro cyntaf eleni am eu barn am rai materion:

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd:



1	Ydy e'n syniad da i roi'r hawl i bobl ifanc 16 oed + i bleidleisio
2	Ydych chi'n bwriadu pleidleisio?
3	Enwch dri phwnc pwysig i chi, yn nhrefn blaenoriaeth, sy'n haeddu sylw yn yr etholiadau hyn


A dyma'r atebion a gafwyd:

Gwenan Jones

1. Ydy
2. Ydw
3. Gofal Iechyd
Cydraddoldeb
Addysg

Elain Owen

1. Ydy
2. Ydw
3. Iechyd Meddwl
Tlodi
Amgylchedd



Carina Sidhu

1. Ydy
2. Ydw
3. Cynllun adfer o'r coronafeirws
Annibyniaeth
Addysg

Betsan Elias

1. Ydy
2. Ydw
3. Cofid
Addysg
Iechyd

Lucy Jones

1. Ydy
2. Ydw
3. Gofal Iechyd
Gofal Cymdeithasol
Sector addysg

Catrin Owen

1. Ydy
2. Ydw
3. Yr amgylchedd
Iechyd
Addysg




Gareth Jones

1. Ydy
2. Ydw
3. Cofid – ffordd allan o'r cyfnod clo
Addysg yn y dyfodol – cymysgedd o arholiadau, gwaith cwrs a gair athrawon neu gadw at ddim ond arholiadau a gwaith cwrs.
Annibyniaeth – dim dod yn hollol annibynnol ond efallai dadleoli mwy o sectorau.

Diolch i Catrin Jones am ei help yn casglu'r atebion ynghyd

YR YSGOL SUL AR SUL Y FAM



Rebecca Hayes...

Awr o hwyl i ddathlu'r Wyl.

Mae gan ein Gweinidog gyfrinach...ac os darllenwch chi hyd y diwedd, cewch chi ei darganfod!



Wedi ei gwisgo mewn dici-bow a siaced, llywiodd Beti-Wyn gwis Pasg i deuluoedd ei Gofalaeth. Yn gefndir iddi, roedd coeden Balmwydd blastig – un y bu bron ag achosi i'r Gweinidog lewygu wrth iddi ei enchwythu.



Wedi croesawu pob un o'r 20 teulu a ddaeth ynghyd i gystadlu, esboniodd ein Gweinidog y byddai 12 rownd o gwestiynau. Esboniodd hefyd bod ei merched hi ei hun wedi gosod her iddi – i wisgo penwisg gwahanol ar gyfer pob rownd.

Dyma gawsom ni: Boppers pen, het bobl, coron, het wellt, het o Awstralia, Sombrero, môr leidr, angel, het dal, pwdin Nadolig, het yr Urdd a chôn traffig. Wrth iddi fynd ati i holi ystod eang o gwestiynau oedd yn amrywio yn eu thema o fwyd i'r Wythnos Fawr ac o wyau Pasg i bapur tŷ bach, cawsom ddysgu atebion difyr a dweud y lleiaf! Er enghraifft, a wyddoch chi mai pinc yw lliw mwyaf poblogaidd papur tŷ bach a bod 50 miliwn o Cadbury Crème eggs yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol. Yr unig gwestiwn na chawsom ni ateb iddo oedd – pam fod gan Beti-Wyn gynifer o hetiau a phryd yn union mae'n cael cyfle i'w gwisgo nhw i gyd?!

Yn ystod y cwis, cafodd y plant gyfle i fynd ar helpa o gwmpas eu cartrefi nhw'u hunain, a'r her oedd dychwelyd gyda chreiriau megis bara, cloc a llwy. Y wobr am ganfod y fath drysorau, oedd sicrhau pwyntiau bonws i'w teuluoedd. Ac wedi awr o hwyl i ddathlu'r ŵyl, y teulu a ddaeth i'r brig gyda 41 o bwyntiau allan o 42 pwynt posib oedd teulu Mwynwen Jones. Llongyfarchiadau fil i'r pump ohonyn nhw.

Nawrte, meddech chi, beth am ddatgelu'r gyfrinach honno yr addewais i ei rhannu gyda chi wrth gychwyn yr adroddiad hwn?

WEL, does gan Beti Wyn - y Gweinidog a chanddi radd mewn

diwinyddiaeth – ddim Lefel O mewn Addysg Grefyddol! Wir i chi. Pam? Oherwydd o'dd hi'n rhy fisi yn cystadlu mewn pencampwriaeth tenis, ac yn ddiweddarach mewn pencampwriaeth hoci, pan ddaeth hi'n adeg i sefyll yr arholiad. Mae wedi addo unioni'r cam rhyw ddiwrnod!



DIRGELWCH YN NHREF MYRDDIN

CANOL wythdegau'r ganrif ddiwethaf cefais lyfr yn anrheg gan ffrind o Concorde, Mass. Credai y byddwn yn ymdiddori'n fawr yn y nofel oherwydd ei chefnidir Cymreig a'i bod wedi ei lleoli yn nhref




Caerfyrddin. Mae'r llyfr a gyhoeddwyd yn 1984 yn dal gennyf ac yn ystod cyfnod y meudwyo penderfynais ddarllen y nofel unwaith eto.

Yr awdur yw **Dixie Tenny**, a aned yn Omaha, Nebraska, ond wedi byw am y rhan helaethf o'i hoes yn Kansas City, Missouri. Astudiodd ym Mhrifysgol Missouri yn Columbia.

Yn 1979 treuliodd semester yng Ngholeg y

Drindod, Caerfyrddin a manteisiodd ar y cyfle i ddysgu am hanes Cymru. Rhoddodd hyn gyfle iddi hefyd i weithio ar nofel ar gyfer yr arddegau a oedd eisoes ar y gweill ganddi, ond yn anffodus yn ystod ei chyfnod yng Nghaerfyrddin cafodd salwch a rhoddwyd y nofel o'r neilltu am gyfnod.

Pan ddychwelodd i'r UDA treuliodd chwe mis yn ceisio adfer ei hiechyd a chanolbwyntiodd ar ail ysgrifennu ei nofel. Cyflwynodd y llawysgrif i Atheneum a chafodd y nofel ei derbyn ar gyfer ei chyhoeddi. Y nofel yw **Call the Darkness Down** a gyhoeddwyd yn 1984.



Y STORI

Magwyd Gwenfair Owen (gynt Morgan) a'i hefaill Angharad yng Nghymru, ond ymfudodd y ddwy i'r UDA bron i bum mlynedd ar hugain

yn ôl. Er bod y ddwy yn adrodd storïau am Gymru wrth eu plant, eto roeddynt yn anfonlon iawn i siarad am eu magwraeth yng Nghymru ac ni wyddai'r plant a oeddynt yn gallu siarad Cymraeg ai peidio. Pam tybed? A oeddynt yn celu rhyw gyfrinach?

Mae Morfa Owen, merch Gwenfair wedi derbyn lle i astudio mewn coleg yng Nghaerfyrddin, tref nid nepell o bentref Trevaughan (Trefechan). Mae ei brawd Ethan a'i chyfnither, Shenna, (merch modryb Angharad), yn gweld hyn yn gyfle gwych iddi ymchwillio i hanes y teulu a cheisio datrys beth oedd y gyfrinach.

Yn fuan ar ôl cyrraedd y coleg mae Morfa yn dod yn ffrindiau gyda Laney West, myfyrwraig o California, a chydag Arianwen, y ferch yr oedd yn rhannu ystafell gyda hi, a gyda Rhys, cariad Arianwen, a gyda Gareth, cenedlaetholwr eithafol a milwriaethus. Mewn dim o amser mae Morfa wedi llwyr ymdoddi i fywyd y coleg - mae'n mynychu gwersi Cymraeg ac yn dysgu'r iaith yn gyflym iawn a chaiff wersi ar y delyn. Mae ei ffrindiau newydd yn ei chyflwyno i athroniaeth Cymdeithas yr Iaith a chenedlaetholdeb. Un o'r cyrsiau hanes dewisol oedd 'Caerfyrddin a'r Gymdogaeth Oddi Amgylch' Mr Malcom Davies, Pennaeth yr Adran Hanes a darlithydd hynod o boblogaidd oedd yn gyfrifol am y cwrs. Ymhen amser dechreuodd pethau rhyfedd ddigwydd i Morfa. Pam y teimlai'n anesmwyth wrth fynd o amgylch Bryn Myrddin? Pwy oedd y dyn rhyfedd a ymddangosai trwy'r niwl fel petai'n ceisio rhoi neges na ddeallai iddi? Sut y gallai egluro'r hyn ddigwyddodd iddi ym mharti Calan Gaeaf y myfyrwyr yng Nghastell Llansteffan?


Mae'r nofel yn byrlymu o ddigwyddiadau i gadw rhywun ar bigau'r drain. Mae'r byd real a'r goruwchnaturiol yn gymysg oll i gyd. A lwyddodd Morfa i ddatrys stori drasig hynafiaid ei mam?

Nodais eisoes mai cyhoeddwy'r y nofel oedd Atheneum, Efrog Newydd, a llyfrau plant a phobi ifanc y cwmni yn cael eu cyhoeddi dan enw Margaret K McElderry, un o olygyddion enwocaf ei dydd ac un oedd â pharch aruthrol iddi ymysg awduron. Bellach llyncwyd y cwmni gan Simon & Schuster.

Pan ddarllenais y nofel roedd yn ddirgelwch i mi pam y

penderfynodd cwmni cyhoeddi mawr yn yr UDA, nad oedd ganddynt brinder awduron enwog, gyhoeddi nofel mor Gymreig ei naws a'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gywir bob tro.

Pan oeddwn yn gweithio ym maes llyfrau plant bûm yn gohebu gyda phrif gyhoeddwy llyfrau plant yn Lloegr i holi pam nad oeddynt yn fodlon i gyhoeddi nofelau gyda chefnidir/ thema Gymreig. Llugoer iawn fu'r ymateb. Ac eto, Margaret K. McElderry yn Efrog Newydd yn barod i'w cyhoeddi. Doedd y peth ddim yn gwneud synnwyr rhywsut. Oedd gan y golygydd gysylltiad â Chymru? Penderfynais ysgrifennu ati i'w holi, a'r ateb a gefais ganddi oedd mai'r hyn oedd yn bwysig iddi oedd bod gan awdur stori dda a gafaelgar oedd yn werth ei hadrodd i gynulleidfa ehangach. Margaret K McElderry gyhoeddodd **A String in the Harp**, Nancy Bond, nofel a leolwyd yn ardal Borth, Ceredigion, ac a enillodd Fedal Newbery a Gwobr Saesneg Tir na n-Og yn 1977.



Hyd y gwn i, ni chyhoeddodd Dixie Tenny nofel arall. Bellach mae wedi troi ei golygon at geisio deall ymddygiad cŵn a'u hyfforddi.



Yn 2016 cyhoeddodd ei hail lyfr - **How to Find Your Dream Dog**, cyfrol a fyddai'n sicrh o apelio at Beti-Wyn!!!


Diau bod nifer o ddarllenwyr **Papur Priordy** yn gwybod am y nofel. Hoffen wybod beth yw ymateb pobl ifanc heddiw iddi. Petai rhai o'ch darllenwyr yn llwyddo i gael benthg copi o'r nofel, tybed a fyddent yn barod i'w darllen a rhoi eu barn amdani. Mae gen i gopi y gallwn ei fenthg dros dro. Rhowch wybod - fy nghyfeiriad yw: mennallw@gmail.com

Digwyddais edrych ar fap o ardal y coleg yng Nghaerfyrddin a gweld bod yna Michelle's Dog Grooming Studio ar y ffordd i Drefechan!!

Cyd-ddigwyddiad??

Diolch yn fawr iawn i Menna Lloyd Williams am ysgrif ddiddorol iawn unwaith eto.

TALWRN Y BEIRDD



Cynhaliwyd Talwrn rhithiol eleni fel rhan o weithgareddau Dathlu Gŵyl Dewi Caerfyrddin 2021. Y ddau Feuryn oedd Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood.

Llongyfarchiadau mawr i Dîm y Priordy ar ddod yn gydradd ail mewn cystadleuaeth lem. A dyma gynnyrch y Priordy i chi gael ei fwynhau a diolch i'r beirdd amdanynt, sef Beti-Wyn James, Aled Evans, Peter Hughes Griffiths ac Elinor Wyn Reynolds.

Pennill Ymson

Troli Archfarchnad

Weithie ma pethe'n teimlo'n faich,
a bywyd yn fwrn dan y pwyse,
yr holl drolis eraill yn deall y drefn
pob un hynny yw, ond y finne.



Nawr sai'n gweud 'mod i'n lico tynnu'n gro's,
mynd yn erbyn y llif na stwbwrno,
smo fi'n gweud 'mod i'n neud pethe wysg 'y nhin,
byth yn flin, na byth bythoedd yn cwyno.

Wy'n droli sy'n ddigon parod
i roi shot ar ralio pob troad,

wy'n trio llithro heb wich na chŵyn
yn ufudd lawr eils yr archfarchnad.

Ond weithie, mae'n anodd, mae'n trici
cadw trefn ar bob whilen sy 'da fi
a chofiwch wrth giamocs-ogamu
bo fi'n trio, bob tro, bod yn deidi

Elinor Wyn

Englyn

Tocyn llyfr

Yn docyn nad oes ei decach, drwyddo
daw rhyddid amgenach,
daw â'r nos yn agosach
ac agor byd geiriau bach.

Cywydd

Cwrdd

(i Luisa Calderón)

Ein hannog a wna hanes
i ddwyn oed â ddoe yn nes;
ond o hedd ein dyddiau da
melysw'n gam Luisa,
rhoi heulwen wnawn ar hiliaeth
a rhoi gwên ar ei hawr gaeth,
rhoi QR lle bu'r curo
a chau ceg cri fach y co'.
Ai dyna'r iawn a wnawn ni
â'n Hingland o ddehongli?
A phetae ein camau'n cwrdd,
ein cyffion fyddai'n cyffwrdd.

Aled Evans



Limrig

Dwi'n cadw rhai sbâr jest rhag ofon
Cai rhyw ddydd, cyn oedfa, drafferthion,
i ffeindio'r tŷ bach
a minnau mewn strach,
a'r hen bâr o sbectol yn yfflon!



Beti-Wyn

Y Gân

CYFARFOD SWM

Newidodd pethe'n sydyn – sdim ishe nawr mynd mas
A rhuthro i gyfarfod heb swper ac ar ras.
Cewch gwrdd a phawb ar IPAD o glicio un bo-twm,
Newidiodd Eric Yuan y byd i gyd a'i 'Swm.'
A neithiwr nes ymuno, mor rhwydd ar y sgrin fach,
A 'Chymdeithas Dweud Celwydde' – dim ond i ni y crach!
Roedd Boris yno'n browlan – ond jawch, fe ges i'r hump.
Y Llywydd yw'r celwyddgi byd enwog Donald Trymp.
Mae cwarfod cyfrinachol i bobol Es For Si
A chyflwynwyr Radio Cymru – sdim lle i chi a fi!
Mae rheol pan chi'n siarad, ail ddweud, ail ddweud sawl gwaith
'Lyfli', 'so' a 'rili' i fod yn cŵl 'da'r iaith.
A phan ddaw y penwythnos bydd Opera Win-ffri
Yn cynnal ei chyfarfod 'da Meghan a Harr-i,
Cawn weld y ddau pryd hynny yn gliriach ar y sgrin
Yn codi dau fys heriol ar deulu mawr y Cwin.
A nawr, fe roia'i gyngor – a dyw e ddim yn bad,
Ar ôl chi fynd i'r gwely – anghofiwch yr IPAD,
A switshwch bant y cwblwl – mae'n gyngor fel y graig
Os ych chi am gael SWMAD cyn cysgu gyda'r wraig!

Peter Hughes Griffiths



Wyau, comic a charden Pasg yn barod i'w dosbarthu i blant yr Ysgol Sul a PIP



Wyt ti'n cofio?

HANNA/ Catherine Eileen Beasley o

ffermdy wledig Blaenwaun Eirch, Cwmfelin-boeth, yn ardal Hendy-gwyn ar Daf. Fe'i ganed 4 Ebrill 1921, gan mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Aeth i Goleg y Brifysgol Caerdydd i astudio Cymraeg a Ffrangeg cyn cychwyn ar ei gyrfa fel athrawes. Bu'n addysgu yn Ysgol y Bechgyn, Llambod ac yna yn Ysgol Ramadeg y Merched, Caerfyrddin. Yn ystod ei chyfnod yng Nghaerfyrddin bu'n lletya yn Heol y Gwyddau ac yn weithgar gyda'r Urdd a Phlaid Cymru. Priododd Trefor, glöwr ac undebwr ym Mhwll y Morlais, Llangennech ym 1951 ac ymgartrefu mewn bwthyn yn y pentref ym 1952. Cawsant ddau o blant, Elidyr a Delyth. Symudodd **y teulu** yn ddiweddarach i Forgannwg er mwyn i'r plant dderbyn addysg uwchradd Gymraeg yn Rhydfelen. Buont yn byw yn Llanharan a Thon-teg. Yn ystod y cyfnod hwn bu Eileen yn addysgu yn Ysgol Ramadeg y Merched Pontypridd.



Wedi ymddeol, dychwelodd gyda'i gŵr i'w sir enedigol ac ymgartrefu yn Henllan Amgoed. Ni fu'n bosibl iddi ddilyn cwrs anrhydedd pan oedd yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd oherwydd amgylchiadau'r cyfnod ond ailgydiodd yn ei hastudiaethau yn ei

hymddeoliad a graddio gydag anrhydedd yn y Gymraeg drwy Gynllun Gradd Allanol Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Hi oedd y ferch gyntaf i'w hethol ar Gyngor Dosbarth Gwledig Llanelli a hynny yn enw Plaid Cymru ym 1958 yn ystod ei dyddiau yn Llangennech. Doedd dim hyd yn oed gyfleusterau i'r merched yn yr adeilad y pryd hwnnw! Bu hefyd yn weithgar yng ngwaith yr eglwys drwy gydol ei bywyd – ym Methesda, Llangennech, pan oedd y Parchedig Maurice Loader yn weinidog yno, yn yr Ysgol Sul yng Nghapel Salem – Capel Bach yr Allt yn Llangennech, yn Llanharan

dan weinidogaeth y Parchedig Kenneth Lintern ac yn Efail Isaf dan y Parchedig D Eirian Rees, yn ogystal â Chapel Annibynnol Henllan Amgoed yn ei dyddiau cynnar ac wedi iddi ddychwelyd yno'n ddiweddarach.

Bu farw ar 12 Awst 2012. Collwyd ei gŵr eisoes ym 1994. Ei dymuniad oedd rhoddi ei chorff at ymchwil feddygol i Goleg Meddygol Cymru. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddi yng Nghapel Annibynwyr Henllan Amgoed.

Mae Eileen a'i gŵr yn adnabyddus am eu brwydr i fynnu papur treth Cymraeg (neu ddwyieithog) gan Gyngor Dosbarth Gwledig Llanelli yng nghanol yr ugeinfed ganrif.



Yn y cyfnod hwnnw roedd statws y Gymraeg yn isel a llawer ac yn barod i dderbyn y

Saesneg fel yr unig iaith swyddogol yng Nghymru ac yn gweld ymgyrch y teulu Beasley yn un afresymol. Mae'n anodd i ni werthfawrogi pa mor wahanol oedd y defnydd o'r Gymraeg y pryd hwnnw. Ar y pryd roedd Llangennech yn un o'r ardaloedd mwyaf Cymraeg yng Nghymru a'r hyn oedd yn bwysig i Eileen a Trefor oedd sicrhau fod y Gymraeg yn cael yr un parch â'r Saesneg. A dyma nhw'n herio'r drefn oedd ohoni a sefyll eu tir ar eu pen eu hunain heb fudiad y tu ôl iddynt na llawer o gefnogaeth gan eraill ychwaith, mae'n debyg.

Bu'r Beasleys yn y llys un ar bymtheg o weithiau a galwodd y beiliod yn eu cartref sawl tro i fynd â pheth o'u heiddo i glirio'r ddyled. Roedd yr eiddo'n llawer mwy ei werth na'r dreth a fynnid gan y Cyngor! Y piano oedd y peth cyntaf i fynd, yna anrhegion priodas gan deulu a ffrindiau. Erbyn diwedd eu hymgyrch roedd y carped ar y llawr wedi'i godi, ei rollo a'i gario allan drwy'r drws ffrynt. Am flynyddoedd, bu'r cwpl a'u plant ifanc yn byw gydag un bwrdd, pedair cadair a'u gwelyau. Parhaodd yr achos am wyth mlynedd ond ym 1960 cafodd y ddau bapur treth dwyieithog.



Roedd eu hymgyrch yn ysbrydoliaeth i lawer. Cafodd eu hachos sylw yn narlith radio enwog **Saunders Lewis**, *Tynged yr Iaith*, ym 1962. Yn fuan wedyn cafodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ei sefydlu.



Yn 2008, agorwyd canolfan gymunedol yn Llangennech wedi ei enwi ar ôl y Beasleys. Yn 2015, cafodd **cofeb** arbennig ei dadorchuddio ar eu hen gartref yn y pentref ble buon nhw'n byw rhwng 1952 a 1964.




Ysgrifennodd **Angharad Tomos** nofel i blant am ymgyrch Eileen, sef ***Darn Bach o Bapur***.

Hi hefyd gyfansoddodd y ddrama *Dyled Eileen* ac a gynhyrchwyd gan




Theatr Genedlaethol Cymru sy'n olrhain safiad Eileen a'i gŵr. Aeth y ddrama ar daith yn 2013 a chafodd ei pherfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llanelli yn 2014. A bydd nifer ohonom yn cofio cyflwyniad Cwmni Theatr Cymru, *Trwy Ddulliau*

Chwyldro yn ymweld â Ffestri'r Priordy ym mis Tachwedd 2012 pan oedd ar daith o amgylch cymdeithasau amrywiol ar hyd a lled Cymru. Roedd y cyflwyniad yn cychwyn gyda pherfformiad o fonolog Eileen Beasley ac yn cynnig blas o ddrama *Dyled Eileen* yr roedd Angharad Tomos yn ei hysgrifennu ar y pryd.



Yn 2006 canodd **Gerallt Lloyd Owen** gywydd iddi yn moli ei chyfraniad i sicrhau parhad y Gymraeg:

Oedd, yr oedd dy iaith yn ddrud
Eithafol ei threth hefyd
Ond ei dyled a delaist
Fwy na llawn trwy fynnu llais,
Trwy fynnu prynu parhad
Yn wyneb ei diflaniad
Dewr oet yn ei brwydr hi
A rhoddaist hyder iddi
A thra byddo dyfodol
I'r Gymraeg yma ar ôl
Fe welir naddu filwaith
Dy enw di yn dy iaith.



Rydym yn cofio Eileen Beasley'r mis hwn oherwydd y garreg filltir nodedig yn ei hanes ac yn haeddiannol felly. Mae geiriau **Dafydd Iwan** yn ei gân *Daw fe ddaw yr awr* yn parhau i fod ar wefusau llawer iawn ohonon ni'r Cymry ac yn cyfleu'n testun diolch yn briodol iawn i deulu'r Beasleys - i bartneriaeth arbennig iawn, i Trefor ac Eileen a'r plant, am eu gwaith a'u haberth dros y pethau gorau sydd gennym fel cenedl. A'n braint ni yw ategu'r gwerthfawrogiad hwnnw'n frwd a chynnes iawn:



**Wyt ti'n cofio teulu'r Beasleys yn gwrthod talu'r dreth?
Cofio'u haberth,
a'u gweledigaeth,
Daw fe ddaw yr awr yn ôl i mi.**



CURO'R CORONA'N COGINIO

**E-Lyfr
Gwasg Carreg Gwalch
£10.00**

**Rysetiau a chynghorion a
gasglwyd yn ystod y cyfnod o
ynysu gartref ar grŵp facebook
poblogaidd
Merched y Wawr**

Ionawr 2021

YR OEDFA

gyda'r

Parchedig Beti-Wyn James

BBC RADIO CYMRU

Dydd Sul 18 Ebrill 2021 am 12 o'r gloch



**DIACONIAID A BLAENORIAID YR OFALAETH YN
MWYNHAU EU CWRDD BLYNYDDOL DAN
GADEIRYDDIAETH SULWYN THOMAS**





DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Ebrill		Mai	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Cartrin H Jones	Huw Jones	Elis Jones	



DARLLENWYR



Ebrill <i>Sul y Pasg</i>	4	Carys Morgans	Mai	2	Siân Axford
	11	P H Griffiths		9	Ffion Parsons
	18	Elinor Wyn Reynolds		16	Tim Hayes
	25	PIP yn arwain	<i>Pentecost</i>	23	Cwrdd Plant
				30	Rosan Saunders




CYHOEDDWYR



Ebrill	Huw Michael	Mai	Alison Parsons
--------	-------------	-----	----------------

COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS



DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Tudur Dylan Jones, Menna Lloyd Williams a Theuluoedd y Priordy am y lluniau'r mis hwn.



CRISTION -- Cyhoeddiad deufisol

Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas





DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd. A da yw croesawu Eira Jenkins yn ôl i'w chartref yng Nghaerfyrddin ar ôl treulio cyfnod gyda'r teulu yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da iddi.

Bu Rebecca Hayes yn adolygu'r papurau ar raglen **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru**. Clywsom Catrin Haf Williams ar **Bwrw Golwg** yn trafod arwyddocâd Sul y Fam ar bedwerydd Sul y Grawys gyda John Roberts.



Un a fu'n teithio'r wlad dros y tri mis diwethaf (heb symud o'r fan!) oedd ein Gweinidog. Onid yw'r dechnoleg Zoom yma yn rhyfeddol! Yn ogystal â bod yng nghwmni aelodau Côr Gogledd America am yr eildro, braf hefyd oedd y cyfle a gafodd i annerch Cangen Clydach o Ferched Y Wawr lle bu ei mam yn aelod ffyddlon. Da oedd gweld wynebau ffrindiau oes. Yn ogystal ag arwain oedfaon digidol, daeth cyfle i arwain oedfa Zoom un bore Sul ar wahoddiad Capel Y Morfa, Aberystwyth. Roedd y cyhoeddiad wedi ei drefnu ers nifer o flynyddoedd a da oedd medru cadw at y trefniant drwy gyfarch y gynulleidfa dros Zoom. Daeth profiad gwahanol iawn i'w rhan yn ddiweddar hefyd a hynny drwy arwain oedfa dros y ffôn ar wahoddiad aelodau Capel Maes y Neuadd, Trefor - profiad digon rhyfedd a dweud y gwir, ond mae'n amlwg bod y drefn o gynnal cynhadledd ffôn bob nos Sul er mwyn cynnal oedfa yn cwrdd â'r angen yn y gornel fach honno o Gymru. Cyn bo hir, bydd yng nghwmni cyfeillion ym Mae Colwyn ar wahoddiad Cymdeithas Bro ac Eglwysi Colwyn, a hynny eto heb symud o'r fan! Mae pob ymweliad rhuthiol yn rhoi cyfle i Beti-Wyn sôn ychydig am ardal Caerfyrddin yn y gobaith o godi chwant ar bawb i ymweld â'r fro fendigiedig hon - pan fydd y ddiogel iddynt wneud. A doedd Beti-Wyn, fel ninnau, siŵr o fod, heb glywed am Zoom cyn mis Mawrth 2020!!

Cafodd Elinor Wyn Reynolds gyfweliad ag Aled Hughes ar **Radio**

Cymru am fenywod sy'n defnyddio enwau dynion i lwyddo ar Ddiwrnod Cenedlaethol Menywod. Hefyd, dymunwn yn dda Iddi fel colofnydd teledu newydd y cylchgrawn **Barn**. Bydd ei herthygl gyntaf yn ymddangos ym mis Ebrill.

Bu Heledd ap Gwynfor a Meredydd yn cymryd rhan yn y rhaglen ddogfen **Blwyddyn Covid: Lleisiau Cymru** ar **S4C** yn rhannu profiadau pobl ar draws Cymru wrth iddynt ymdopi gyda blwyddyn o fyw drwy bandemig.

Mae gwaith Menna Elfyn eisoes wedi'i gyfieithu i 20 o ieithoedd gan gynnwys Tsienieg, Sbaeneg, Eidaleg, Lithiwaneg a Chatalaneg a bellach mae'i chyfrol **Bondo** ar gael yn yr Eidaleg.

Ein dymuniadau gorau i Huw a Chris Lloyd sydd wedi symud tŷ o Fronwydd i Gefneithin. Pob hapusrwydd iddynt ar eu haelwyd newydd.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mai i'n
Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD


Estynnwn ein cydymdeimlad â Nickola a Heulyn Roderick ac Elis ac Erin ar golli ewythr Heulyn a hen ewythr y plant, sef y Parchedig Ganon Wynzie Richards a gollwyd ar 12 Mawrth 2021. Roedd yn gyn Gaplan yn Ysgol Fôr Portishead a bu'n ficer yn Llandybïe a hefyd yng Nghwm-ann lle treuliodd ymddeoliad hapus. Anfonwn ein cofion at ei briod Mair, y plant Dafydd, Sioned a Catrin a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.

Atebion y Cwis Arian

1. Pum ceiniog 2. Ceiniog a Thair Ceiniog 3. Teiliwr. Gorleston-on-sea yn ymyl Great Yarmouth 4. Gallech barhau i'w newid cyn belled â'u bod wedi'u dyddio cyn 15 Chwefror 1971. Roedd tablau trawsnewid gan y banciau. 5. 1967 6. 10c. 20c. 50. 7. 20c 8. Malta



Y SULLADUR



Ebril <i>Sul y Pasgl</i>	4	Bore	Oedfa Gymun i'r Ofalaeth dros Zoom am 10 gyda'n Gweinidog Yn ymuno ag Oedfa Undeb yr Annibynwr Cymraeg am 10.30 gyda'n Gweinidog	C
	11	Bore	Oedfa Ddigidol gyda'r Parchedig Guto Prys ap Gwynfor	
	18	Bore	Dychwelyd i'r Priordy - Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	25	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog a PIP yn arwain	

Mai	2	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	C
	9	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	16	Bore	Y Parchedig Llywelyn Picton Jones	
<i>Pentecost</i>	23	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	
	30	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul.
Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn aildddechrau.

DALIER SYLW



**Bwriad yr Ofalaeth yw aildddechrau cynnal oedfaon
wyneb yn wyneb o Ddydd Sul 18 Ebrill 2021**



ymlaen, gan hyderu y bydd yr amgylchiadau lleol yn caniatáu i ni wneud hynny. Byddwn, wrth gwrs, yn cadw golwg ar y sefyllfa'n ddyddiol a rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd. Pwysleisiwn hefyd y byddwn yn deall yn iawn os na fydd rhai ohonoch yn teimlo'n ddigon hyderus i fentro i'r oedfaon ar hyn o bryd.